**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LW/02390/22

Y Cynghorydd Elwyn Jones
Cyngor Gwynedd
eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

07 Mawrth 2023

Annwyl Gynghorydd Elwyn Jones,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr, a nodaf benderfyniad Cyngor Gwynedd i ysgrifennu at y partïon perthnasol sy'n ymwneud â'r gwasanaethau trên a ddarperir gan Avanti West Coast a Trafnidiaeth Cymru (TfW) yng Ngwynedd.

O ran cynlluniau TfW, maent yn buddsoddi £800 miliwn mewn cerbydau newydd sbon ar draws y rhwydwaith, gyda gwasanaeth trenau CAF Class 197 newydd bellach yn y gogledd a'r trenau cyntaf yn cael eu defnyddio ar Reilffordd Dyffryn Conwy. Mae'r trenau newydd hyn yn disodli'r hen drenau a ddefnyddir yn y gogledd ac yn cynnig cynnydd o ran capasiti a gwelliannau o ran cyfforddusrwydd a chyfleusterau teithwyr o'i gymharu â'r trenau y byddant yn cymryd eu lle.

Yn ogystal, bydd ein Rhaglen Metro Gogledd Cymru yn trawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol ar draws y gogledd. Mae'r Metros yn cynnig rhai o'r cyfleoedd gorau i gyrraedd ein targed o 45% o deithiau sy'n cael eu gwneud gan drafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol erbyn 2040, gan helpu i leihau tagfeydd ar y ffyrdd, allyriadau carbon a llygredd aer.

O ran Avanti West Coast, maent bellach yn cynnal 6 gwasanaeth dwyffordd y dydd i'r gogledd ac yn ôl ar ddydd Llun i ddydd Gwener gyda 5 gwasanaeth dwyffordd rhwng gogledd Cymru a Llundain, gyda gweddill y gwasanaeth yn gweithredu rhwng y gogledd a Crewe neu Birmingham. Mae 5 gwasanaeth dwyffordd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul ond nid yw'r rhain i gyd yn teithio cyn belled â Llundain gyda chymysgedd o gyrchfannau fel Caer, Crewe a Birmingham.

O ran HS2, mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi £100 biliwn yn seilwaith rheilffyrdd HS2 ac o'r cyllid hwnnw, dylai Cymru gael yr hawl i'n cyfran poblogaeth o 5%, sef £5 biliwn. Mae parhau i gategoreiddio HS2 gan Lywodraeth y DU fel prosiect Cymru a Lloegr gan Drysorlys Llywodraeth y DU yn tanseilio ein gallu i fuddsoddi mewn rheilffyrdd yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2021 daeth y Pwyllgor Materion Cymreig i'r casgliad y dylai HS2 gael ei ailddosbarthu fel Cynllun i Loegr yn unig, gan gydnabod nad yw'r cynllun o fudd i Gymru. Ni wnaeth Llywodraeth y DU dderbyn yr argymhelliad hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw’n gyson am ddatganoli’r cyfrifoldeb dros seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru gyda setliad ariannu teg. Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod ein cais, ac wedi methu’n barhaus â buddsoddi yng Nghymru. Bydd datganoli’r rhwydwaith rheilffyrdd yn llawn ochr yn ochr â setliad ariannu teg yn galluogi datblygiad trawsnewidiol y rheilffordd ar draws Cymru sydd ei angen i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer rheilffyrdd a nodir yn Llwybr Newydd. Byddai hyn yn ein galluogi i ddarparu system drafnidiaeth gyhoeddus integredig a chynaliadwy hygyrch i deithwyr.

Yn gywir,

**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change